

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: 5 Ebrill 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD GWENER, 13 EBRILL 2018** am 10.00 am yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN..**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**Cynhelir sesiwn friffio ar gyfer aelodau am 9.15am, yn union o flaen y prif gyfarfod. Taer erfynnir ar i aelodau wneud pob ymdrech i fynychu's sesiwn hon.**

## AGENDA

### RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

#### 1 YMDDIHEURIADAU

#### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un l'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 18)

Cael cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2017 (copi ynghlwm).

**10.05 a.m. – 10.10 a.m.**

**5 PROSIECT YSBYTY GYMUNEDOL GOGLEDD SIR DDINBYCH**

I dderbyn cyflwyniad gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y cynnydd a wnaed hyd yma gyda datblygiad y cyfleuster newydd a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ei ddarparu.

**10.10 a.m. – 10.50 a.m.**

**6 YSBYTY GYMUNEDOL DINBYCH**

I dderbyn cyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt cau wardiau yn Ysbyty Gymunedol Dinbych, y ddarpariaeth amgen sydd wedi'i threfnu ar gyfer y cyfnod interim, a'r cynlluniau ar gyfer yr ysbyty yn y dyfodol

**10.50 a.m. – 11.30 a.m.**

~~~~ EGWYL 11.30 - 11.40 ~~~~

**7 PRESTATYN IACH**

I dderbyn diweddariad ar lafar gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y fenter Prestatyn Iach

**11.40a.m. – 12.15p.m.**

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 19 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddariad i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.15p.m. – 12.30p.m.**

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**12.30p.m. – 12.36p.m.**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Joan Butterfield  
Gareth Davies  
Hugh Irving  
Pat Jones  
Christine Marston

Y Cyngorydd Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Melvyn Mile  
Andrew Thomas  
Rhys Thomas  
David Williams

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Iau, 14 Rhagfyr 2017 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Gareth Davies, Hugh Irving, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd yn y Gadair)

Aelod Arweiniol y Cabinet – y Cyngorydd Bobby Feeley ar gyfer eitemau 6 a 7

Aelod Arweiniol y Cabinet – y Cyngorydd Julian Thompson-Hill ar gyfer eitem 5

Arsylwyr - Y Cyngorwyr Meirick Lloyd Davies a Graham Timms

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS): Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Swyddog Comisiynu (CW), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), Rheolwr Gwasanaeth, Ardaloedd (JM), Rheolwr Ardal (NE-J), Cydlynnydd Archwilio (RE) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd) a Pat Jones.

#### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyngorydd Gareth Lloyd Davies gysylltiad personol ag eitemau 5, 6 a 7 gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

#### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion bryd.

#### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2017.

Materion yn codi – tudalen 7 (ail bwynt bwled) – holodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ymateb i'r mater hwn wedi dod i law. Cadarnhawyd bod y Strategaeth wedi'i chyflwyno gerbron y Cabinet yn gynharach yn yr wythnos ac wedi'i chymeradwyo. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y diffyg rheolaeth ymddangosiadol a oedd gan awdurdodau lleol o ran darparu cymorth digartrefedd statudol, oherwydd

bod y diffiniad o'r term 'cysylltiad lleol' fel yr oedd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth yn eithriadol o amwys ac yn ymddangos fel pe bai o blaid unrhyw un a oedd eisiau mynediad at y gwasanaeth yn yr ardal.

Cododd y Cadeirydd y pwynt hefyd ei fod wedi gofyn am wybodaeth yn y cyfarfod am y gost gyfartalog fesul uned pan fyddai teuluoedd yn cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast dros dro, a thra bod ffigurau ar gyfer cyfanswm y gost wedi'u rhoi, nid oedd costau cyfartalog fesul uned deuluol wedi'u rhoi.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

## **5 CYNLLUN LLES BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH 2018-2022**

Datganodd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies gysylltiad personol gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Cyflwynwyd yr adroddiad a Chynllun Lles drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2022 (a gylchredwyd yn flaenorol) gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, gan ddirprwyo ar ran yr Arweinydd a oedd i ffwrdd ar apwyntiad arall. Yn ystod ei gyflwyniad, rhoddodd friff i'r Pwyllgor ar gefndir sefydliad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ei aelodau, pwrpas a chylch gwaith, cyn cyflwyno'r Cynllun Lles drafft i aelodau. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor bod y Cynllun drafft, a oedd wedi'i ddatblygu'n defnyddio dull tebyg i Gynllun Corfforaethol y Cyngor ei hun, wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a bod y Pwyllgor yn un o'r ymgynghoreion statudol, yr oedd yn ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymgynghori ag ef ar ei gynlluniau arfaethedig, a dyna pam roedd y Bwrdd yn ceisio ei safbwyntiau ar y saith cwestiwn ymgynghoriad a restrwyd yn yr adroddiad a'r Cynllun drafft. Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn rhedeg am gyfnod o ddeuddeg wythnos, ac ar y diwedd byddai pob sefydliad partner yn mynd â'u Cynllun drwy eu cyrff gwneud penderfyniadau dynodedig. Yn Sir Ddinbych, byddai'r Cyngor llawn yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Cynllun terfynol gobeithio yn Chwefror 2018.

Yn ystod y cyflwyniad, dywedodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol fod Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei annog gan y cysylltiadau rhwng y chwe blaenoriaeth yng Nghynllun Lles drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2018-2022 a'r pum blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022 y Cyngor ei hun. Gan ymateb i gwestiynau aelodau, rhoddodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion wybod:

- bod y Cynllun ei hun yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n nodi amcanion a dyheadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y pum mlynedd nesaf. Byddai'n cael ei ategu gan gynlluniau darparu traws-sefydliadol manwl ar gyfer sut y byddai'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni;
- tra nad oedd y flaenoriaeth sy'n ymwneud â 'Hyrwyddo Gwytnwch mewn Pobl Hŷn' yn crybwyll lles corfforol yn benodol, byddai'r nod o adeiladu gwytnwch ymhlith pobl hŷn yn cynnwys lles corfforol a meddyliol, a sicrhau eu bod wedi'u cysylltu'n gymdeithasol ac nid yn dioddef o arwahanrwydd. Roedd yn rhan o'r 'agenda atal' cyffredinol;



- yn yr un modd, mewn ymgais i leihau gordewdra, yn enwedig gordewdra mewn plant, roedd addysg ac atal yn ystod y 1,000 diwrnod cyntaf yn cael ei ystyried yn allweddol er mwyn meithrin arferion da am oes;
- roedd atal yn nodwedd allweddol ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda'r ddwy yn pwysleisio'r angen i bob unigolyn gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain;
- er bod pobl yn rhydd i wneud eu dewisiadau bywyd eu hunain, er mwyn diogelu digon o adnoddau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, roedd angen llunio strategaeth gyfathrebu effeithiol i 'werthu' buddion dewisiadau bywyd synhwyrol a'r dull atal i breswylwyr. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i gysylltu â'r gwaith a wnaed gan Brifysgol Bangor ar gyfraddau ymddygiadol a sut i newid ffocws cyfathrebiadau corfforaethol o bwysleisio effaith negyddol ymddygiad, i dynnu sylw at yr effeithiau cadarnhaol a chyflawniadau ymddygiad ac arferion newidiol h.y. faint roedd preswylwyr wedi'u cyflawni drwy ailgylchu mwy o wastraff ac ati;
- roedd angen annog ymarferwyr meddygol i hyrwyddo argaeledd gweithgareddau corfforol neu gymdeithasol sy'n digwydd yn eu hardal, boed a ydynt wedi'u rhedeg gan yr awdurdod lleol, yn breifat neu gan wirfoddolwyr, fel ffordd ddi-feddygol o wella gwytwnch a lles;
- tra bod casgliad Asesiad o Effaith ar Les ar effaith y Cynllun drafft yn nodi y byddai'r nod o gael 'Conwy a Sir Ddinbych gyda diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu' yn niwtral, roedd hyn yn gysylltiedig â'r Cynllun ei hun. Byddai pob prosiect unigol a fyddai'n cael ei ddatblygu'n cael ei asesu a'i fonitro'n unigol o ran ei effaith ar bob un o'r nodau lles unigol. Rhagwelwyd pe gellid symud ymlaen â'r flaenoriaeth yn ymwneud â datblygu'r economi, gallai hyn o bosib wella cynaliadwyedd yr iaith a'r diwylliant yn yr ardal yn y dyfodol;
- roedd yn annhebygol iawn y byddai unrhyw un o sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn penderfynu bod yn erbyn cymeradwyo'r Cynllun Lles ddechrau 2018, gan fod pob sefydliad unigol wedi bod ynghlwm wrth ei ddatblygiad ers y cychwyn cyntaf; a
- bod y pŵer i weithredu'r blaenoriaethau a restrir yn y Cynllun Lles gyda sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, h.y. drwy eu cynlluniau strategol, yn Sir Ddinbych, ei Chynllun Corfforaethol. Byddai llwyddiant darpariaeth o'r Cynllun yn dibynnu ar waith effeithiol rhwng pob sefydliad partner a sianeli cyfathrebu clir. Cafodd y pwerau i weithredu'r Cynllun eu hamodi yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a oedd yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau sector cyhoeddus mewn ardal ddaearyddol i gydweithio i wella canlyniadau preswylwyr.

Yn ystod y cyfarfod, cododd gynghorwyr bryderon am sut roedd gor-yfed a'i gorwneud hi efo alcohol yn cael ei bortreadu'n beth 'normal' ar byrth cyfryngau amrywiol, ac felly'n hygyrch i bob oedran ar bob adeg o'r dydd. Cynigiodd y Swyddogion godi'r pryderon hyn gydag lechyd Cyhoeddus Cymru gan fod addysg o ran alcohol, tybaco a chamddefnyddio sylweddau'n ffurfio rhan o'i waith, fel yr oedd bwyta'n iach ac ati.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch ai cyfnod y Cynllun Lles oedd 2018-2022 fel y nodwyd yn yr adroddiad eglurhaol, neu 2018-2023 fel y nodwyd yn y Cynllun drafft, a phwysleisiwyd yr angen i flaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru adlewyrchu ac ategu at y rhai a geir gan awdurdodau lleol a chyrrff gwasanaeth cyhoeddus ar draws Cymru, er mwyn gwireddu'r lles gorau wrth eu cyflawni. Yn ogystal, gofynasant fod y fersiwn Cymraeg o'r Cynllun yn cael ei brawf ddarllen a'i wirio'n drylwyr ar gyfer gwallau argraffyddol cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

Cyn y daeth y drafodaeth i ben, rhoddodd y Cydlynnydd Archwilio wybod i'r Pwyllgor bod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i opsiynau posibl ar gyfer archwilio'r Bwrdd yn y dyfodol, yn cynnwys y manteision a'r anfanteision o gynnal yr archwiliad ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel rhan o'i waith i archwilio dulliau effeithiol o archwilio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y gwaith hwn yn y camau cynnar iawn ar hyn o bryd. Byddai adroddiad ar opsiynau posibl yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio i'w ystyried maes o law, ac yn ei grŵp cyfatebol yng Nghyngor Conwy. Ar ddiwedd y drafodaeth:

**Penderfynwyd:**

***(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn a chefnogi'r adroddiad a Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023;***

***(ii) mewn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad, mae'n dymuno rhoi gwybod i'r Bwrdd ei fod:***

- wedi cytuno a chefnogi'r Blaenoriaethau Lles yr oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio eu gwireddu'n llwyr;***
- o'r farn bod cryfder pŵer cyfunol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud gwahaniaeth yn codi drwy gydweithrediad effeithiol, cronni adnoddau, a chyfathrebiad rhwng bob partner a phreswlydd i hybu'r strategaeth ymyrryd/ymyrraeth gynnar, gyda'r bwriad o liniaru problemau rhag gwaethygu'n rhai mwy cymhleth a dwys yn y dyfodol;***
- o'r farn y dylai'r Bwrdd ganolbwyntio ar flaenoriaethau 'Cefnogi 1,000 Diwrnod Cyntaf Bywyd' a 'Magu Pobl Ifanc Gwydn ac Uchelgeisiol' (yn cynnwys pob plentyn o oedran ysgol) i ddechrau;***
- ddim o'r farn bod unrhyw beth yn y cynllun drafft angen ei newid;***
- o'r farn nad oedd unrhyw elfennau mawr wedi'u hepgor o'r Cynllun, ond byddai'n cael ei gryfhau ymhellach pe bai pwysigrwydd arwain ffordd o fyw iach (yn cynnwys peryglon tybaco a chamddefnyddio sylweddau, buddion teithio llesol ac ati), yr angen i gael cyfleusterau hamdden fforddiadwy i bawb, ac amcan o annog ymarferwyr meddygol i ragnodi diddordeb hamdden a chymdeithasol fel ffordd o wella iechyd a lles, yn cael eu cyfeirio'n benodol atynt yn y Cynllun;***

- *yn teimlo y byddai cyfathrebu rheolaidd ac effeithiol am y Cynllun a gwaith y Bwrdd yn allweddol er mwyn parhau i ymgysylltu â phreswylwyr a gwireddu darpariaeth y Cynllun; ac*
- *ei fod o'r farn y dylai archwilio Cynllun Corfforaethol y Cyngor a gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn effeithiol, helpu i sicrhau y cyflawnir y Cynllun Lles.*

*(iii)er mwyn cydweithredu'n effeithiol, mae angen ymgorffori blaenoriaethau a gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngwaith Cyngor Sir Ddinbych (ac i'r gwrthwyneb), drwy gysylltiadau Cynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Lles y Bwrdd; a*

*(iv) yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad B) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## **6 ADRODDIAD CYNNYDD - STRATEGAETH GOFALWYR SIR DDINBYCH 2016-19**

Datganodd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies gysylltiad personol gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol), a roddodd ddiweddiariad i aelodau ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i ddarparu'r strategaeth tair blynedd, a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor am ddatblygiadau sylweddol eraill yn ymwneud â gwasanaethau gofalwyr. Yn ystod ei chyflwyniad, dywedodd yr Aelod Arweiniol y daethpwyd â ffaith i'w sylw mewn cynhadledd genedlaethol ddiweddar, lle nodwyd bod yna 370,000 o ofalwyr di-dâl wedi'u hamcangyfrif yng Nghymru'n unig. Roedd y gofalwyr hyn yn arbed miliynau o bunnoedd i lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r naill flwyddyn i'r llall, felly roedd yn allweddol eu bod yn cael cymaint o gefnogaeth â phosibl yn eu swyddogaethau fel gofalwyr.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol sylw'r aelodau at y fersiwn wedi'i ddiweddarau o Gynllun Gweithredu Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych, a oedd yn amgaeedig yn Atodiad 1 o'r adroddiad, gan roi gwybod bod y mwyafrif o gamau gweithredu a restrwyd wedi'u dyfarnu â statws COG Gwyrdd, a oedd yn golygu eu bod naill ai wedi'u cyflawni neu ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni, roedd gan rai statws COG melyn a oedd yn golygu eu bod yn dal ar y gweill, tra bod un gyda statws COG 'coch'. Roedd yr un diwethaf yn ymwneud â chynnig i archwilio'r buddion o ddatblygu 'model cynhadledd deuluol' i ddelio â sefyllfaoedd mewn Gwasanaethau Oedolion, yn debyg i'r model gweithredu llwyddiannus yng Ngwasanaethau Plant. Er bod y Gwasanaeth yn dal yn cynllunio i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r model hwn, roedd y gwaith wedi'i ohirio ar hyn o bryd oherwydd bod angen blaenoriaethu gofynion eraill a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth wybod bod darpariaeth gyffredinol o'r Strategaeth yn mynd yn dda, er nad oedd unrhyw arian newydd neu ychwanegol i ddatblygu gwasanaethau gofalwyr. Roedd yna deimlad cyffredinol ymhlith gofalwyr, a'r rhai roeddent yn gofalu amdanynt, eu bod yn cael gwell

cefnogaeth nawr nag yn y gorffennol, ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau neu gymorth os oeddent eu hangen.

Yn Atodiad 2 yr adroddiad, roedd crynodeb o ganfyddiadau astudiaeth ddiweddar o gynnydd a wnaed yn genedlaethol i weithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan eu bod yn ymwneud â gwasanaethau Gofalwyr, yn cynnwys sefyllfa gyfredol Sir Ddinbych mewn perthynas â phob 'canfyddiad'. Roedd yr Atodiad hwn hefyd yn amlinellu materion eraill a oedd yn ymwneud â Gofalwyr, yr oedd gofyn i'r Cyngor eu hystyried a'u harchwilio ymhellach.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, rhoddodd yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Gwasanaeth a Swyddog Comisiynu Gwasanaethau Gofalwyr roi gwybod bod:

- anghenion gofalwyr ifanc yn y Gwasanaeth Addysg bellach yn cael mwy o sylw, gyda champau gweithredu a oedd yn cael eu nodi fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Gofalwyr mewn perthynas â gofalwyr ifanc yn cael eu hymgorffori yng nghylch gwaith nifer o weithgorau iechyd ac addysg;
- roedd y gwaith i hyrwyddo a chyflawni modiwlau e-ddysgu ynghylch goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran gofalwyr i staff Bwrdd Iechyd yn mynd rhagddo, a byddai'n parhau, gan fod gan y Gwasanaeth gyfradd trosiant staff uchel, ac o ganlyniad, byddai angen hyfforddiant parhaus;
- er bod cynrychiolydd o fenter gymdeithasol Mary Dei yn parhau i fod yn y Grŵp Strategaeth Gofalwyr, roedd y fenter ei hun yn dal i ystyried ei chyfeiriad yn y dyfodol, er ei bod yn dal i ragweld gwaith i gefnogi gofalwyr;
- er ei bod yn cael ei ystyried yn fuddiol i grwpiau gwirfoddol a gafodd eu cynrychioli ar y Grŵp Strategaeth Gofalwyr gael cynllun busnes, nid oedd yn cael ei ystyried yn ofyniad gorfodol. Fodd bynnag, gallai grwpiau gwirfoddol a oedd eisiau arweiniad ar sut i ddatblygu cynllun busnes gysylltu â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych am arweiniad a chefnogaeth i ddatblygu cynlluniau;
- roedd gweithdy wedi'i gynnal 7 Rhagfyr 2017 o dan nawdd Tîm Cydweithredu Rhanbarthol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, i geisio cytuno ar ffordd ymlaen i ddylunio a darparu gwasanaethau gofalwyr ar draws y rhanbarth. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar beth oedd yn gweithio'n dda ar hyn o bryd a sut y gallai partneriaid weithio'n well i gyfrannu tuag at les gofalwyr. Er byddai'n beth amser eto cyn y byddai cynllun cyson ar draws Gogledd Cymru i gefnogi gofalwyr neu ar gyfer trefniadau cyd-gomisiynu, byddai gwaith yn parhau mewn ymgais i ddarparu'r gefnogaeth ofynnol i ofalwyr;
- mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor mewn cyfarfod cynharach y dylid archwilio'r buddion o ddarparu Cardiau Hamdden i ofalwyr ifanc, roedd rhinweddau'r cynnig hwn wedi'i archwilio gyda Gwasanaethau Hamdden a Phlant y Cyngor, a gyda Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych. O ganlyniad, roedd cytundeb wedi'i gyrraedd mewn egwyddor i ddarparu Cardiau Hamdden i ofalwyr ifanc. Roedd opsiynau posibl neu gyfuniad o opsiynau i ddarparu'r cardiau hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd;
- oherwydd y rhwymedigaethau statudol a oedd gan y Cyngor nawr tuag at ofalwyr, roeddent wedi cael mwy o sylw yn y Cynllun Corfforaethol newydd, o dan y flaenoriaeth Cymunedau Mwy Gwydn; a

- thra bod yna arian heb ei wario ar hyn o bryd yn y Grant Seibiant i Ofalwyr wedi'i ddynodi ar gyfer Gwasanaethau Gofalwyr, roedd cynlluniau i ddefnyddio'r cyfan cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Rhoddodd y Cynghorydd Gareth Davies, gweithiwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sicrwydd i'r Pwyllgor y bu newid mewn diwylliant yn y Bwrdd Iechyd o ran hyfforddiant staff, gyda gormod yn tanysgrifio ar gyfer y cyrsiau'n rheolaidd nawr, a champau disgyblu'n cael eu cymryd yn erbyn staff nad oedd yn bresennol mewn cyrsiau gorfodol. Yn dilyn trafodaeth fanwl:

**Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod:**

- (i) cefnogi'r dull a gymerir gan bartneriaid yn Sir Ddinbych i barhau i gydweithio i ddatblygu cymorth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych ymhellach, o fewn cyd-destun o gynnydd mewn galw, deddfwriaeth newydd a newidiadau demograffig;***
- (ii) parhau i gefnogi a hyrwyddo cyflawniadau'r Strategaeth er mwyn i Wasanaeth Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych ddiwallu ei oblygiadau statudol ar gyfer Gofalwyr, mewn perthynas â phartneriaid statudol a thrydydd sector; a***
- (iii) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les a gwblhawyd yn gynharach yn y flwyddyn, fel rhan o'i ystyriaethau.***

Ar y pwynt hwn (11.30 a.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.40 a.m.

## **7 ADOLYGU'R UN PWYNT MYNEDIAD (SPOA)**

Datganodd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies gysylltiad personol gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Gan gyflwyno'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol), rhoddodd yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth wybodaeth ei bod yn gefnogwr brwd o'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad, gan ei bod yn teimlo ei fod yn cyfrannu at y rhaglen gwytnwch cymunedol. Roedd copi o'r adroddiad adolygu, a oedd yn rhoi manylion ynghylch y dull adolygu a'r meysydd gwasanaeth a ystyriwyd fel rhan ohono, yn amgaeedig fel Atodiad 1 o'r adroddiad. Roedd amcan yr adolygiad wedi bod yn ddeublyg – i asesu pa mor effeithiol ac effeithlon oedd y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad wrth gyflawni ei wasanaethau ac wrth wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac i sefydlu a oedd y model darparu gwasanaeth yn addas ar gyfer y dyfodol.

Roedd ystadegau yn yr adroddiad yn dangos y galw ar y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad yn ystod Chwarteri 1 a 2 ar gyfer y tair blynedd diwethaf, roedd y rhain yn

dangos cynnydd parhaus mewn cyswllt â'r Gwasanaeth, ac atgyfeiriadau ato. Mewn ymateb i ymholiadau a ddaeth i law, rhoddodd y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad gyngor am wasanaethau neu asiantaethau a allai gynorthwyo'r rhai hynny a oedd angen cymorth. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn ysgogi atgyfeiriadau i wasanaethau ymyrryd, gyda'r bwriad o gefnogi unigolion i fyw'n annibynnol am gyn hired â phosibl, ac felly lleihau'r galw a'r pwysau ar wasanaethau mwy dwys. Roedd yr Adolygiad wedi dod i gasgliad bod y cysyniad Un Pwynt Mynediad yn cael ei werthfawrogi gan bob budd-ddeiliad a'r rhai a ddefnyddiodd y gwasanaethau. Er bod y Gwasanaeth yn cael ei ystyried yn addas at y diben, cafodd ei gydnabod, wrth i Dimau Adnoddau Cymunedol gael eu datblygu, y byddai angen i'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad esblygu ac addasu i ategu at y gwasanaethau a roddwyd ganddynt. Roedd nifer o feysydd ar gyfer gwella a datblygu yn y dyfodol wedi'u nodi, roedd y rhain yn cynnwys:

- yr angen i sefydlu a gweithredu fframwaith sicrwydd ansawdd cadarn, a fyddai'n mesur, sgiliau, gwybodaeth a hyder, ymhlith pethau eraill, y Tîm Un Pwynt Mynediad i ddarparu Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth;
- gwella gwaith rhyngwyneb gyda gwasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol mewn ysbytai ac yn y gymuned;
- yr angen i adolygu ac ailddiffinio swyddogaethau a sgiliau cyfun yn y Gwasanaeth;
- gwneud Un Pwynt Mynediad yn fwy hygyrch i gefnogi meddygfeydd Meddygon Teulu ac iddo hyrwyddo mwy o negeseuon ieuchyd cyhoeddus;
- defnyddio Un Pwynt Mynediad i gefnogi'r datblygiad o Bwyntiau Siarad a'r Gwasanaethau Llywiwr Cymunedol; ac
- archwilio cyfleoedd cyd-weithio posibl gyda Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Yn ystod y cyflwyniad, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth (Ardaloedd) fanylion ynghylch nifer o astudiaethau achos sy'n dangos llwyddiant y Gwasanaeth yn ystod y sgwrs "Beth sy'n Bwysig", y cyswllt cychwynnol; roedd gan y cyhoedd gyda'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad, lle'r oedd cyngor perthnasol ac ati wedi'i roi ar yr adeg gywir, ac o ganlyniad, arweiniodd hynny at oddeutu 35% i 40% o'r rhai hynny a gysylltodd â'r Gwasanaeth, nad oedd angen cefnogaeth mwy dwys a drud gan y Gwasanaethau Cymdeithasol mwyach. Rhoddodd wybod, fel rhan o'r sgwrs "Beth sy'n Bwysig", bod trafodaethau wedi digwydd ynghylch y math o gefnogaeth neu wasanaethau a oedd yn ofynnol gan yr unigolyn er mwyn cynnal eu hannibyniaeth, a'u gallu i ariannu'r gwasanaethau hynny. Yn ei hanfod, roedd y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad yn wasanaeth cynghori a oedd yn cyfeirio pobl at wasanaethau a all fod ar gael iddynt, wrth weithredu fel gwasanaeth atal hefyd drwy gyfeirio unigolion at wasanaethau ieuchyd cymunedol, gyda'r bwriad o gynnal eu lles cyffredinol.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau gwnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- gadarnhau bod pecynnau gofal a chymorth wedi'u rheoli ond yn cael eu cynnig i'r unigolion hynny na allai gyflawni eu canlyniadau a ddymunir heb gymorth. Byddai pobl sydd angen y pecynnau hyn yn destun asesiad ariannol. Os allent fforddio i dalu'r pecyn, byddent yn gorfod talu hyd at £70

yr wythnos. Byddai unigolion nad oedd â'r gallu i dalu'r pecyn cymorth yn dal yn ei dderbyn ac ni fyddai disgwyl iddynt dalu;

- rhoesant wybod bod y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad yn rhannu gwybodaeth gyda'r holl ymarferwyr a oedd yn ymwneud ag unigolion, gyda'r bwriad o sicrhau dull di-dor cyfannol o ran darpariaeth gwasanaeth ac i osgoi bod cyngor a gwasanaethau'n cael eu dyblygu;
- cadarnhau bod y mwyafrif o'r arian i dalu am y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad wedi'i ddiogelu drwy arian grant y Gronfa Gofal Integredig, a oedd yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd Iechyd at y diben o ariannu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Roedd gweddiill yr arian yn dod gan y GIG a'r Cyngor. Roedd y Bwrdd Iechyd yn rheoli cyllid y Gronfa Gofal Integredig, ond roedd y Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol yn gorfod dod i gytundeb ynghylch sut y byddai'r arian yn cael ei wario i ddarparu gwasanaethau a fyddai'n gwella canlyniadau i breswylwyr. Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddai darn helaeth o waith yn cael ei wneud i ddylunio'r gwasanaethau a fyddai'n cael eu darparu yn y pen draw gan y Timau Adnoddau Cymunedol Integredig, lle byddai un yn cael ei leoli yn y pen draw yn safle Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych newydd;
- rhoi gwybod bod y Cyngor wedi pwysleisio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr na allai barhau i gefnogi'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad yn y dyfodol, os byddai'r arian grant Cronfa Gofal Integredig yn cael ei dynnu'n ôl o'r Gwasanaeth neu'n cael ei ddargyfeirio i rywle arall;
- cadarnhau y gallai agweddau ar y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad gael eu datblygu'n rhanbarthol. Fodd bynnag, byddai'r Gwasanaeth yn gorfod cael ei siapio a'i ddarparu'n lleol, fel arall ni fyddai'n diwallu angen pobl leol neu'n ymgysylltu â'r asiantaethau, sefydliadau neu rwydweithiau cymorth lleol cywir;
- rhoi gwybod bod rhai meddygfeydd Meddygon Teulu yn well nag eraill am hyrwyddo argaeledd y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad i'w cleifion. Roedd y Gwasanaeth yn cynllunio i sefydlu'r opsiwn i Feddygon Teulu atgyfeirio cleifion at yr Un Pwynt Mynediad drwy e-bost yn y dyfodol. Byddai hefyd yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb yn fuan ar fuddion posibl lleoli gweithredwr canolbwynt Un Pwynt Mynediad gyda Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu;
- amlinellu'r gwahaniaeth rhwng agwedd darparu gwybodaeth ar waith yr Un Pwynt Mynediad, ei waith ymgynghori, a'i rôl i gynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau a all eu helpu nhw e.e. llenwi ffurflenni;
- pwysleisio'r buddion o gael gweithredwyr canolbwynt Un Pwynt Mynediad aml-fedrus a gwybodus sy'n gweithio yn y Gwasanaeth. Cael gwybodaeth traws-wasanaeth, a gallu cael mynediad at systemau cyfrifiadur iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhodd bod gweithredwyr Un Pwynt Mynediad yn gallu darparu ystod eang o gefnogaeth, cyngor a chymorth i'r rhai sy'n cysylltu â nhw, gyda rhai a oedd ag anghenion cymhleth neu ymholiadau ag agweddau lluosog. Nid oedd unrhyw ddau ymholiad neu atgyfeiriad yr un fath. Mewn rhai achosion, gall yr ymholiad cychwynnol ymddangos yn un hawdd i'w ddatrys, fodd bynnag, yn ystod y sgwrs "Beth sy'n Bwysig" ddilynol, gall anghenion sylfaenol eraill ddod i'r amlwg, y gall ymyrraeth a chymorth cynnar ar yr adeg honno liniaru yn eu herbyn, gan osgoi eu bod yn gwaethygu yn broblemau llawer mwy, a fyddai angen adnoddau drud yn hwyrach ymlaen;

- cadarnhau bod system Un Pwynt Mynediad ar wahân yn cael ei gweithredu ar gyfer problemau iechyd meddwl. Roedd y Gwasanaeth hwn yn gweithredu dull 'brysbennu'. Roedd gweithredwyr canolbwynt Un Pwynt Mynediad yn gallu cyfeirio ac atgyfeirio pobl gyda phroblemau iechyd meddwl at Wasanaeth Un Pwynt Mynediad Iechyd Meddwl;
- rhoi gwybod bod y Gwasanaeth yn ceisio gwella elfen clwstwr cam-i-lawr o'i waith, gyda'r bwriad o hwyluso rhyddhad amserol o'r ysbyty. Y cynnig o ran yr agwedd hon ar y gwaith oedd cynnwys y sector gwirfoddol yn fuan yn ystod y broses rhyddhau o'r ysbyty, i hwyluso rhyddhad unigolyn i'w cyfeiriad cartref, gyda'r pecyn cymorth mwyaf addas yn ei le er mwyn sicrhau eu diogelwch;
- cadarnhau bod y cynnydd o 83% yn nifer yr atgyfeiriadau Meddyg Teulu i'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad rhwng 2015 a 2017 wedi'i briodoli i'r llwyddiant a gyflawnwyd wrth hyrwyddo'r Gwasanaeth;
- rhoi gwybod i'r Pwyllgor, er mwyn sicrhau bod gweithredwyr canolbwynt yn parhau i gynnal a chynyddu eu sgiliau a gwybodaeth, bod hyfforddiant wythnosol a sesiynau rhannu gwybodaeth yn cael eu trefnu i staff. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau a hwyluswyd gan wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol eraill ynghylch y gwasanaethau roeddent yn gallu eu rhoi. Roedd y ffaith bod gwirfoddolwr ymgysylltu â thrydydd sector wedi'i leoli gyda gweithredwyr canolbwynt Un Pwynt Mynediad hefyd yn helpu i gynyddu eu gwybodaeth. Ar hyn o bryd, roedd Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu Fframwaith Cymhwysedd Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth cenedlaethol, roedd Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth ar y lefelau cymhwysedd a fyddai'n ffurfio rhan o'r Fframwaith;
- cadarnhau bod y Gwasanaeth yn ddrud i'w ddarparu ar benwythnosau, oherwydd y nifer isel a oedd yn manteisio arno, oherwydd bod Rheoliadau Gweithwyr Sy'n Gweithio Ar Eu Pen Eu Hunain yn gofyn bod dau berson yn gorfod bod ar gael bob amser, hyd yn oed pan oedd y galw'n isel. Gyda'r bwriad o leihau costau ar gyfer darparu dros y penwythnos, roedd y Gwasanaeth yn archwilio'r opsiynau posibl gyda phartneriaid eraill i weld a oedd modd lleoli gweithredwr canolbwynt Un Pwynt Mynediad yn un o'u hadeiladau i ddarparu cyflenwad dros y penwythnos h.y. Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau yn Ysbyty Glan Clwyd. Os oedd hyn yn bosibl, roedd ganddo'r potensial i haneru'r costau staff gan mai dim ond un aelod o staff a fyddai'n gorfod bod ar ddyletswydd yn ystod cyfnodau tawelach; a
- chadarnhau na fyddai'n bosibl i weithredwyr canolbwynt Un Pwynt Mynediad ddarparu'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o'u cartrefi eu hunain yn unol ag arferion gweithio'n hyblyg, gan y byddai angen mynediad arnynt at systemau TG partneriaid, yn cynnwys systemau GIG diogel, yn ogystal â systemau TG y Cyngor.

Ar ddiwedd y drafodaeth, tynnodd aelodau sylw at y ffaith y gallai pobl ganfod eu hunain yn ofalwyr yn ogystal â bod yn breswylwyr yn sydyn iawn, a fyddai o bosibl yn trawsffurfio eu bywydau'n llwyr. Roedd gwybodaeth a gwasanaethau a ddarparwyd yn dilyn un galwad i'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad yn amhrisiadwy i'r preswylwyr hynny a helpodd i ysgafnhau baich eu cyfrifoldebau.



Yn dilyn trafodaeth fanwl, canmolodd y Pwyllgor y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad a'i staff am y gwasanaeth a'r wybodaeth a roddwyd ganddynt:

**Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod -**

- (i) llongyfarch y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad am y gwasanaethau rhagorol roedd wedi'u rhoi;***
- (ii) parhau i gefnogi a hyrwyddo datblygiad y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad fel ffordd o ddiwallu blaenoriaethau corfforaethol 2017-22 a'r ddyletswydd statudol i ddarparu Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a***
- (iii) derbyn gwahoddiad i ymweld â'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad i weld drostynt eu hunain sut roedd y model darparu gwasanaeth yn gweithredu.***

## **8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Gwaith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal 22 Ionawr 2018 lle'r oedd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cadarnhau eu presenoldeb.

Roedd Aelodau wedi gofyn i'r Cydlynnydd Archwilio i archwilio'r posibilrwydd o newid dyddiad cyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 1 Mawrth 2018 i ddyddiad ddiwedd Mawrth, neu ddechrau Ebrill, gyda'r bwriad o dderbyn adroddiadau Tawelfan yn gynt na'r cyfarfod ym Mehefin fel y trefnwyd yn wreiddiol. Roeddent yn teimlo y byddai cyfarfod Mehefin ychydig yn hwyr i'r Pwyllgor roi sylwadau ar eu canfyddiadau.

Byddai Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio'n cyfarfod 18 Ionawr 2018. Os oedd gan Aelodau unrhyw eitemau roeddent yn dymuno eu hystyried ar gyfer cyfarfodydd Archwilio yn y dyfodol, gofynnwyd iddynt lenwi ffurflen gynnig a oedd yn y pecyn.

***PENDERFYNWYD*** cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.

## **9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Roedd y Cynghorydd Melvyn Mile wedi mynd i'r Her Gwella Busnes a Moderneiddio Gwasanaeth. Rhoddodd ddiweddariad i aelodau ar y pwyntiau a godwyd yn ystod y cyfarfod Her Gwasanaeth, a oedd yn cynnwys:

- pa mor hyderus oedd y Gwasanaeth bod y Cyngor yn archwilio'r 'pethau cywir'?

- archwilio'r potensial ar gyfer cydweithredu rhanbarthol a gwaith trawsawdurdod ym maes TGCh, os oedd y Cyngor am wireddu ei uchelgais i fod yn Gyngor cwbl ddigidol erbyn 2022; a
- meysydd posibl i gynhyrchu incwm yn y dyfodol? h.y. o werthu gwasanaethau i gynghorau eraill

Roedd y camau gweithredu allweddol a nodwyd yn ystod y broses Her Gwasanaeth, i'r Gwasanaeth eu datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod, wedi'u manylu yn y nodiadau a gylchredwyd i aelodau Pwyllgor yn y ddogfen Briff Gwybodaeth cyn cyfarfod y Pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.**

|                            |                                          |
|----------------------------|------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>      | <b>Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b> |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b> | <b>13 Ebrill 2018</b>                    |
| <b>Swyddog Arweiniol:</b>  | <b>Cydlynnydd Archwilio</b>              |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b> | <b>Cydlynnydd Archwilio</b>              |
| <b>Teitl:</b>              | <b>Rhaglen Waith Archwilio</b>           |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno drafft rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i'r aelodau ei hystyried.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwêl yn briodol; ac
- 3.2 cytuno i gynnal cyfarfod mis Medi 2018 ar ddydd Iau, 20<sup>fed</sup> Medi.

## 4. Manylion am yr adroddiad

- 4.1 Mae Adran 7 o Gyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio. Mae'r Adran hon hefyd yn cynnwys rheolau gweithdrefnau a thrafodaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau.
- 4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Drwy adolygu a blaenoriaethu materion mae modd i aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflwyno rhaglen dan arweiniad yr aelodau.
- 4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau archwilio'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso cael trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.
- 4.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl archwilio ar

draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio archwilio fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. O hyn ymlaen disgwylir i archwilio ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda golwg ar sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd archwilio wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.

- 4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer archwilio ac ar yr un pryd ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol, argymhellodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA) y dylai pwyllgorau archwilio'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:
- arbedion ar y gyllideb;
  - cyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);
  - unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio (neu'r GCIGA) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y meini prawf profion 'PAPER' - gweler ochr gefn y 'ffurflen gynnis aelodau' yn Atodiad 2 ) a;
  - Materion brys, materion na ellir eu rhagweld neu faterion â blaenoriaeth uchel

#### Ffurflenni Cynnig ar gyfer Archwilio

- 4.6 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu'r amser i gael ei drafod ar agenda fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor i ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnis' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir. Nid oes ffurflen gynnis wedi dod i law oddi wrth swyddog i'w ystyried yn y cyfarfod cyfredol.
- 4.7 Er mwyn gwneud gwell defnydd o amser archwilio drwy ganolbwyntio adnoddau pwyllgorau i archwilio testunau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y GCIGA y dylai'r aelodau, yn ogystal â swyddogion, gwblhau 'ffurflenni cynnis ar gyfer archwilio' yn amlinellu pam eu bod yn credu y byddai'r testun yn elwa o fewnbwn archwilio. Gellir gweld copi o 'ffurflen gynnis' yn Atodiad 2. Mae ochr gefn y ffurflen hon yn cynnwys siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth baratoi i gynnis eitem ar gyfer archwilio, ac y dylai pwyllgorau eu gofyn wrth benderfynu ar addasrwydd testun arfaethedig i'w gynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol archwilio. Os, ar ôl cwblhau'r broses hon, y penderfynir nad yw'r testun yn addas i'w archwilio'n ffurfiol gan bwyllgor archwilio, yna gellir ystyried dulliau eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater e.e. darparu 'adroddiad gwybodaeth', neu os yw'r mater yn un o natur leol

gellir ei archwilio gan y Grŵp Aelodau Ardal (GAA) perthnasol. Ni ddylai unrhyw eitemau gael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb i 'ffurflen gynnig ar gyfer archwilio' gael ei chwblhau, ac i'r testun gael ei gymeradwyo i'w gynnwys ar y rhaglen gan un ai'r Pwyllgor neu'r GCIGA. Mae cymorth ar gael i lenwi'r ffurflenni gan y Cydlynnydd Archwilio.

#### Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet

- 4.8 Wrth benderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol mae'n bwysig fod pwyllgorau archwilio yn ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. Ar gyfer y diben hwn, mae rhaglen waith y Cabinet wedi ei chynnwys yn Atodiad 3.

#### Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

- 4.9 Yn Atodiad 4 mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori aelodau am eu gweithrediad.

#### Cyfarfod mis Medi 2018

- 4.10 Ar hyn o bryd mae cyfarfod mis Medi 2018 y Pwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer dydd Iau, 13<sup>eg</sup> Medi. Gan nad yw'r Cadeirydd yn gallu mynychu'r cyfarfod hwnnw mae hi'n ceisio caniatad y Pwyllgor i ohirio'r cyfarfod am wythnos. Gofynnir felly i aelodau gytuno i gynnal y cyfarfod ddydd Iau, 20<sup>fed</sup> Medi.

### **5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio**

Dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynol. Cyfarfu'r Grŵp ar 18 Ionawr 2018 ac yn y cyfarfod hwnnw gofynnwyd i'r Pwyllgor hwn, yn ei gyfarfod ar 3 Mai 2018, i ystyried adroddiad ar 'Gyllidebau i Gefnogi Pobl sydd a hawl i Gynllun Gofal a Chefnogaeth' – gweler Atodiad 1. Cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r Grŵp ar 15 Mawrth 2018. Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor hwn eu hystyried yn y cyfarfod hwnnw.

### **6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gynnal y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol, i wella canlyniadau i breswylwyr tra hefyd yn dygymod â thoriadau llym yn y gyllideb.

**7. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gam gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

**9. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad o Effaith ar Les o'r [wefan](#) a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi ei wneud mewn perthynas â phwrpas neu gynnwys yr adroddiad hwn. Ond bydd y Pwyllgor Archwilio, drwy ei waith yn archwilio darpariaeth gwasanaethau, polisïau, gweithdrefnau ac argymhellion, yn ystyried eu heffaith neu eu heffaith posib ar yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a'r amcanion o ran lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**10. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?**

Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

**11. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith. Fodd bynnag, wrth adolygu ei raglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu hystyried a'u harchwilio fel y maent yn dod i'r amlwg a bod argymhellion yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â nhw.

**12. Grym i wneud Penderfyniad**

Mae Adran 7.11 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amodi fod y pwyllgorau Archwilio a/neu Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio yn gyfrifol am osod eu rhaglenni gwaith ac y dylent, pan yn penderfynu ar eu rhaglenni roi ystyriaeth i ddymuniadau yr Aelodau hynny o'r Pwyllgor nad ydynt yn aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**

Cydlynnydd Archwilio

Rhif ffôn: (01824) 712554

e-bost: [rhian.evans@sirddinbych.gov.uk](mailto:rhian.evans@sirddinbych.gov.uk)

Note: Items entered in italics have not been approved for submission by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.

| Meeting                                                     | Lead Member(s)            | Item (description / title)                   | Purpose of report                                                                                                                                                                                                                   | Expected Outcomes                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Author                               | Date Entered  |
|-------------------------------------------------------------|---------------------------|----------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------|---------------|
| 3 May<br>Russell House, Rhyl<br>(followed by visit to SPoA) | <b>Cllr. Bobby Feeley</b> | 1. Homelessness Strategy and Prevention Plan | To report on the progress to date in implementing the Homelessness Strategy 2017-21 and delivering the Homelessness Prevention Action Plan 2018-19 (including the latest position with respect of future Supporting People funding) | (i) Support the delivery of the Strategy and Plan to ensure that everyone is supported to live in homes that meet their needs;<br>(ii) assurances that plans are being developed to mitigate any risks associated with the withdrawal of the protection afforded in recent years to Supporting People funding for homelessness | Phil Gilroy/Liana Duffy/Eirlys Lloyd | November 2017 |

| Meeting | Lead Member(s)            | Item (description / title) |                                                                 | Purpose of report                                                                                                                                                                                                                                                                     | Expected Outcomes                                                                                                                                                                                                                    | Author                                      | Date Entered             |
|---------|---------------------------|----------------------------|-----------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|--------------------------|
|         |                           |                            |                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                       | prevention work                                                                                                                                                                                                                      |                                             |                          |
